Ysgol Iolo Morganwg

Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol

CYNNWYS

Cyflwyniad

- Côd ymarfer Anghenion Arbennig Cymru 2002.
- Diffinio Anghenion Dysgu Ychwanegol a Darpariaeth ADY.
- Byrfoddau a ddefnyddir yn y polisi.

RHAN 1
Gwybodaeth sylfaenol am ddarpariaeth addysg arbennig yn Ysgol Iolo Morganwg

- Gwybodaeth am yr ysgol
- Nodau'r polisi
- Aelodau'r Adran ADY a'u cyfrifoldebau
- Y trefniadau ar gyfer cydgysylltu darpariaeth addysgol ar gyfer disgyblion ag ADY
- Y trefniadau derbyn ar gyfer disgyblion ag ADY

RHAN 2
Gwybodaeth am drefniadau asesu a chofnodi gwybodaeth am ddisgyblion ADY.

- Dyrannu adnoddau i ddisgyblion ag ADY
- Trefniadau canfod ac asesu a gweithdrefnau adolygu
- Trefniadau ar gyfer darparu mynediad i ddisgyblion ag ADY i gwricwlwm cytbwys ag eang
- Sut mae plant ag ADY yn cael en hintegreiddio o fewn yr ysgol gyfan
- Meini prawf ar gyfer gwerthuso llwyddiant polisi ADY yr ysgol
- Y ddarpariaeth ar gyfer plant disglair a dawnus
- Trefniadau ar gyfer ystyried cwynion/pryderon am ddarpariaeth ADY fewn yr ysgol

RHAN 3
Gwybodaeth am bolisiau staffio'r ysgol a phartneriaeth gyda asantiaethau tu allan i'r ysgol

- Trefniadau HMS ADY yr ysgol. Datblygiad proffesiynol y staff er mwyn cwrdd a gofynion y disgyblion sydd ag ADY
- Defnydd o arian GEST ac arian a ddaw o'r Sir
- Y defnydd a wneir o athrawon a chyfleusterau o'r tu allan gan gynnwys y Gwasanaeth Cefnogi Disgyblion
- Trefniadau ar gyfer partneriaeth gyda rhieni
- Cysylltiadau gyda'r ysgolion eraill gan gynnwys trefniadau pan fydd disgyblion yn newid neu gadael yr ysgol
- Cysylltiadau a gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, gwasanaethau lles addysg ac unrhyw gyrff gwirfoddol.

RHAN 4
Y polisi yn dod i rym/ trerfniadau adolygu'r polisi

POLISI ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Cyflwyniad

Pwrpas y polisi hwn yw i ddisgrifio'r trefniadau a gweithdrefnau a fydd yn sicrhau bod disgyblion a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn cynhaliaeth briodol fel gallant gyfranogi'n llawn o gwricwlwm cyflawn, eang, cytbwys a gwahaniaethol yr ysgol gan ddatblygu hyd eithaf eu gallu.

Côd Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru
Daeth Y Côd Ymarfer hwn i rym ar Ebrill y cyntaf 2002 gan ddisodli Côd 1994.

Mae Côd Ymarfer ADY Cymru yn rhoi cyngor ymarferol i:
. Awdurdodau Addysg Lleol
. ysgolion â gynhelir
. sefydliadau Blynyddoedd Cynnar
. ac eraill

Mae gan yr uchod ddyletswydd statudol i:
. ganfod Anghenion Dysgu Ychwanegol plant
. asesu anghenion dysgu ychwanegol plant
. wneud darpariaeth ar eu cyfer.

Diffiniad o Anghenion Dysgu Ychwanegol (Anghenion Dysgu Ychwanegol):
Mae gan blant Anghenion Dysgu Ychwanegol os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n golygu ei bod yn ofynnol i wneud darpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer.

Mae gan blant anhawster dysgu os ydynt:

a) yn cael anhawster i ddysgu sy'n sylweddol fwy na'r anhawster a gaiff rhan fwyaf o blant yr un oed;

neu

b) ag anabledd sy'n eu hatal rhag gwneud defnydd o gyfleusterau addysgol o fath a ddarperir yn gyffredinol i blant o'r un oed mewn ysgolion yn ardal yr awdurdod addysg lleol.

Mae darpariaeth addysgol arbennig yn golygu:
I blant dwy oed neu drosodd, darpariaeth addysgol sy'n ychwanegol at y ddarpariaeth addysgol a wneir fel rheol ar gyfer plant o'u hoedran mewn ysgolion a gynhelir gan yr AALl yn yr ardal, ar wahan i ysgolion arbennig, neu'n wahanol mewn rhyw ffordd arall i'r ddarpariaeth honno.

Oherwydd yr ystod o anghenion arbennig-o'r rhai lleiaf difrifol i'r mwyaf difrifol - mae angen ystod cymesurol o ddarpariaeth ar gyfer anghenion arbennig, gan amrywio o'r ychydig hyd at lefel ddwys o gefnogaeth.

Er mwyn cyflawni nod ac amcanion yr ysgol a sicrhau bod pob disgybl yn elwa llawer o'r profiad addysg yn Ysgol Iolo Morganwg rhaid darparu'n llawn ar gyfer pob disgybl sydd ag ADY.

Mae darparu ar gyfer plant sydd ag ADY yn fater i'r ysgol gyfan. Mae pob athro yn athro ar blant ag ADY. Felly, mae dysgu plant fel hyn yn gyfrifoldeb i'r ysgol gyfan, a rhaid i'r ysgol gyfan ymateb.

Yn ganolog i waith pob dosbarth, pob pwnc amphob testun ceir cylch parhaus o gynllunio, addysgu, asesu a gwerthuso sy'n cymryd holl alluoedd, doniau a diddordebau'r disgyblion i ystyriaeth. Bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu ac yn gwneud cynnydd o fewn y trefniadau hyn.

I'r rhai sydd ddim rydym yn sicrhau darpariaeth ychwanegol i'w cefnogi ac i'w helpu i lwyddo.

Seilir y polisi yma ar Gôd Ymarfer Anghenion Addysgol Cymru Ebrill 2002.

Byrfoddau a ddefnyddir yn y polisi:

CADY (= CADY = SENCo)	Cydlunydd Anghenion Dysgu Ychwanegol ceir ei galw yn CADY sef Cydlunydd Anghenion Dysgu Ychwanegol o hyd neu SENCo
ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol a oedd yn cael eu glaw'n Anghenion Dysgu Ychwanegol
CDU	Cynllun Dysgu Unigol (Individual Learning Plan)
ACD	Athrawes Cynnal Dysgu
Cynorthwy-ydd ADY	Cynorthwy-ydd Anghenion Dysgu Ychwanegol
AALl	Awdurdod Addysg Lleol
CA1 CA2	Cyfnod Allweddol 1 plant 5 i 7 CyfnodAllweddol 2 plant 7 i 11
CC	Cwricwlwm Cenedlaethol – diwigwyd yn 2008 nawr ar gyfer CA2 yn unig dal yn seiliedig ar bynciau yn cael ei fesur drwy lefelau 1 i 5
CS	Cyfnod Sylfaen – yn lle CA1 plant 3 i 7 7 maes yn lle pynciau yn cael ei fesur trwy ddeillianau 1 i 6
Haen 1 2 3 gwahanol lefelau o gymorth a sut mae'r plant wedi eu grwpio dan ambarel ADY	Haen 1 = addysgu o safon ac mae'n cynnwys holl blant y dosbarth a thasgau gwahaniethol Haen 2 = plant sydd ar ein Cofrestr Consyrn ac sy'n cael cymorth ychwanegol – bydd y mwayfrif yn dal i fyny gyda'i cyfoedion Haen 3 = plant ar y Gofrestr ADY ac sydd ar GY, GY+ neu Ddatganiad ac sydd angen cefnogaeth
GY GY+ Datganiad	Gweithredu Ysgol Gweithredu Ysgol a Mwy Plant sy'n cael eu cefnogi gan arian y AALL

RHAN 1
Gwybodaeth sylfaenol am ddarpariaeth addysg arbennig yn Ysgol Iolo Morganwg

Egwyddorion:
Rydym ni yn Ysgol Iolo Morganwg yn rhoi statws uchel i Anghenion Dysgu Ychwanegol wrth weithredu a pharatoi y Cwricwlwm Cenedlaethol a Fframwaith y Cyfnod Sylfaen. Mae'r hyn sydd yn arfer dda i blant ag ADY yn arfer dda i bob plentyn.

Rhai o brif nodau yr ysgol yw:

- Addysgu pob plentyn i'r safon uchaf bosib gan ddatblygu gallu a medrau'r unigolyn
  i'r eithaf fel eu bod yn cyrraedd, ac yn gwella ar eu potensial yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a Fframwaith y Cyfnod Sylfaen.

- Rhoi sylfaen gadarn o wybodaeth i bob plentyn gan ddarparu amrywiaeth o brofiadau er mwyn hyrwyddo pob agwedd o'i ddatblygiad.

- Paratoi pob plentyn ar gyfer bod yn ddinesydd cyfrifol.

Nodau polisi ADY yr ysgol:

- Darparu cwricwlwm addas ar gyfer pob disgybl unigol a all fod ag anghenion dysgu ychwanegol ar hyd neu yn ystod ei yrfa ysgol

- Sicrhau bod y disgyblion yn derbyn profiad addysg mor eang a chytbwys ag sy'n bosibl, gan warchod ei hawl i'r mynediad llawnaf posibl i'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r Cyfnod Sylfaen.

- Darparu cynhaliaeth addas ar gyfer disgyblion sydd ag ADY

- Adnabod, ymateb i, monitro a chloriannu'n rheolaidd anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion

- Ymateb i'r ystod gofynion yn hylaw a hyblyg, gan baratoi cynlluniau gwaith sydd yn cydnabod pwysigrwydd gweithgareddau gwahaniaethol ac sydd yn rhoi cyfle i'r holl ddisgyblion gael eu hymestyn

- Gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd y disgyblion

- Dyrannu a defnyddio adnoddau yn bwrpasol

- Ymestyn disgybl galluog wrth ddarparu cynllun gwaith sydd yn ei herio a'i gyfoethogi

- Addysgu disgyblion ag ADY (yn cynnwys rhai a datganiad arnynt) ochr yn ochr a'u cyfoedion yn y brif ffrwd, lle bo hynny'n addas, a chan ystyried dymuniadau rhieni a'r disgybl

- Sefydlu a meithrin partneriaeth a chydweithrediad rhwng disgyblion, eu rhieni, yr AALl, asiantaethau allanol, ysgolion y dalgylch ac Ysgol Bro Morgannwg er mwyn cynnal pob disgybl eithaf

    - Adnabod ac asesu anghenion y disgybl mor fuan ag sy'n bosibl, gan ddilyn a gweithredu ar unrhyw wybodaeth gychwynnol ac ymgynghori ymlaen llaw a'r ysgol flaenorol neu'r daparydd meithrin, yr Ymwelydd Iechyd ac unrhyw asiant allanol arall er mwyn sicrhau dilyniant yn y ddarpariaeth

    - Darparu rhaglen HMS ystyrlon a pharhaol ar gyfer llywodraethwyr yr ysgol, y pennaeth a'r uwch dim rheoli, athrawon ac athrawon cynnal i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn darparu'r addysg orau bosibl i ddisgyblion ag ADY

    - Sicrhau fod yna gyfle cyfartal i'r disgyblion sydd ag ADY yn unol â pholisi Cyfle Cyfartal yr Ysgol

    - Dangos parch tuag atynt fel unigolion a sicrhau amgylchedd weithgar a sefydlog tu fewn a thu allan i'r dosbarth gan ddilyn prif nodau'r ysgol

    - Hyrwyddo medrau cymdeithasol a helpu'r disgyblion i gyrraedd safon dderbyniol o ran ymddygiad

    - Cynnwys, os yw'n briodol, y rhieni a'r disgyblion mewn partneriaeth weithredol oddi fewn yr ysgol

    - Sicrhau fod yna drefniadau arbennig yn ystod profion mewnol ac allanol ar gyfer y disgyblion sydd ag ADY, os yn berthnasol

CYFRIFOLDEBAU

Cydlynydd ADY yr ysgol yw Mrs Wendy Farleigh (caiff y cydlunydd ei galw yn CAAA neu SENCo o hyd)

Mrs Wendy Farleigh, Dirprwy Bennaeth Ysgol Iolo Morganwg sy'n cydlynu y ddarpariaeth Addysgol Arbennig o fewn yr ysgol. Mae'n gyfrifol am :

- weithredu polisi ADY yr ysgol o ddydd i ddydd a sicrhau fod cydweithwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau tuag at blant ag ADY
- gydgysylltu a chyd-athrawon a chynorthwywyr cefnogi dysgu a'u cynghori.
- creu a chynnal mapiau darpariaeth
- reoli'r tim ADY o athrawon a chynorthwywyr cefnogi dysgu
- gydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag ADY
- oruchwylio'r cofnodion ar bob disgybl ag ADY
- cysylltu gyda a gweithio gydag asiantaethau allanol gan gynnwys y
- Gwasanaethau Cefnogi Disgyblion a Seicolegydd Addysg yr AALl, gwasanaethau iechyd a chymdeithasol a chyrff gwirfoddol
- ddatblygu a gwerthuso strategaethau'r ysgol ar gyfer adnabod, monitro ac adolygu plant ag ADY
- gadw i fyny gyda datblygiadau yn y maes a throsglwyddo gwybodaeth
- sicrhau cysylltiad agos gyda Ysgol Bro Morgannwg er mwyn sicrhau dilyniant effeithiol
- am drefnu cyfarfodydd adolygiad gan gynnwys adolygiadau blynyddol plant gyda datganiad
- am gysylltu a thrafod gyda rhieni plant ag ADY a sicrhau eu bod yn deall yr hyn sy'n digwydd a'u bod yn rhan o'r holl broses ADY
- sicrhau bod y disgyblion yn deall beth sy'n digwydd ac yn cael y cyfle i fynegi eu barn/pryderon

Athrawes Cynnal Dysgu - Anghenion Dysgu Ychwanegol yw Mrs Anne Kaye

Mae hi'n gweithio am 10 awr yr wythnos yn cefnogi bachgen sydd â datganiad ac mae gweddill ei hwythnos wedi ei rhannu rhwng ei gwaith fel Cydlunydd Dyfal Donc Rhifedd ac athrawes cynnal dysgul ADY.
Mae hi'n gfrifol am:

- ddatblygu trefn o gadw cofnodion yn effeithiol
- gynllunio a chydlynu darpariaeth ADY o ddydd i ddydd
- gynghori athrawon dosbarth ar sut i ddarparu ar gyfer plant ag ADY
- cynghori'r CAAA am gynnydd ac anghenion disgyblion
- asesu a monitro cynnydd y plant
- cynnal adnoddau ADY
- cydlynu Dyfal Donc Rhifedd

Nôd Ysgol Iolo Morganwg yw addysgu disgyblion ag ADY ochr yn ochr a'u cyfoedion, cyn belled ag y bo modd, ac o ganlyniad mae rôl yr athrawes cynnal dysgu yn holl bwysig. Mae'r disgyblion naill ai'n cael eu haddysgu yn y dosbarth neu'n cael eu tynnu allan am gyfnodau byr un i un neu mewn grwpiau bach i ganolbwyntio ar agweddau o'r gwaith sy'n peri anhawster iddynt, e.e. gwaith darllen a deall, atgyfnerthu sgiliau llythrennedd/ffoneg neu i roi hwb i'w hyder wrth ddefnyddio sgiliau mathemateg. Ceisir sicrhau ym mhob achos nad yw'r cyfnod yma yn golygu i'r disgyblion golli allan ar wybodaeth cwricwlaidd.

Cyfrifoldeb y Cynorthwywyr ADY

Mae dwy gynothwy-ydd yn gweithio 3 prynhawn yr wythnos yn cefnogi yr Athrawes Cynnal Dysgu. Maent yn gweithio'n bennaf gyda plant sydd ddim ar y Gofrestr ADY ond a fydd yn elwa o gymorth ychwanegol gyda'u darllen neu eu sgiliau llythrenedd.

Mae un yn Gydlynydd Dyfal Donc Llythrenedd Cymraeg – plant ar Haen 2 sy'n elwa o'R Cymorth.

Mae'r cynorthwy-ydd arall yn cydlynu Dyfal Donc Llythrenedd Saesneg. Mae hefyd yn gweithio yn nosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2 yn cefnogi grwpiau bach o blant sydd heb ADY ond sydd angen peth cymorth i wella sgiliau ac atgyfnerthu eu dealltwriaeth.

Cyfrifoldeb yr Athrawes Cynnal Arbenigol Mewnol

Mae'r Athrawes Cynnal Arbenigol Mewnol – Dyslecsia yn gweithio yn rhan amser 4 bore'r wythnos a'i chyfrifoldebau yw:

- cynllunio a gweithredu darpariaeth arbenigol ar gyfer dau ddisgybl ag anghenion dwys (dyslecsia) – y ddau ar GY+
- gweithio un i un gyda'r disgyblion, monitro, cofnodi ac asesu eu cynnydd
- cynghori'r CAAA am eu cynnydd a'u hanghenion

Cynhaliaeth ychwanegol oddi wrth Gwasanaeth Cefnogi Disgyblion:
Defnyddir y Gwasanaeth yma yn ôl y canllawiau â osodir gan yr Awdurdod.

Cyfrifoodeb yr Athrawon Dosbarth

- Bod yn hollol ymwybodol o drefniadau'r ysgol ar gyfer canfod ac asesu disgyblion sydd ag ADY a darparu ar eu cyfer.
- Bod yn barod i dderbyn HMS a mynychu cyrsiau a ddarperir gan ysgol, y Sir neu asiantaethau eraill.
- Cymeryd cyfrifoldeb am wahaniaethu tasgau, llunio a gwerthuso Cynlluniau Dysgu Unigol disgyblion mewn cydweithrediad a'r ACD a'r CAAA a chadw cysylltiad agos a'r ACD o ran darparu'r gorau i'r plant sydd ag ADY.

Cyfrifoldeb y Pennaeth

Mr Dylan Wyn Evans, y Pennaeth mewn cydweithrediad â Mrs Wendy Farleigh, y cydlunydd ADY, sy'n gyfrifol am ddarpariaeth ar gyfer plant sydd ag ADY. Dylai roi gwybodaeth lawn yn rheolaidd i'r Corff Llywodraethol am y gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol ynghyd ag unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud a'r maes.

Cyfrifoldeb y Corff Llywodraethol

Mrs Gwen Batey yw'r llywodraethwr â enwir gyda chyfrifoldeb am Addysg Arbennig.

Mae gan Gorff Llywodraethol pob ysgol a gynhelir ddyletswyddau statudol pwysig tuag at ddisgyblion ag ADY. Y bwrdd Llywodraethol, gyda chefnogaeth y pennaeth a'r Cydlunydd ADY, sy'n penderfynu ar bolisisu cyffredinol yr ysgol a'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag ADY, gan benderfynu ar y modd y mae'n cael ei ariannu a'i staffio. Mae'n gyfrifoldeb arnynt i oruchwylio gwaith yr ysgol a rhoi adroddiad blynyddol i'r rhieni am ddarpariaeth yr ysgol, llwyddiant y polisi ac unrhyw newidiadau iddo.

Rhaid i'r Corff Llywodraethol felly:

- Wneud ei orau i sicrhau bod y ddarpariaeth angenrheidiol ar gael ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd ag ADY
- Sicrhau bod pawb sy'n debygol o ddysgu disgyblion sydd ag ADY yn ymwybodol
  o'u hanghenion
- Sicrhau bod athrawon yn yr ysgol yn ymwybodol o bwysigrwydd canfod disgyblion sydd ag ADY a darparu ar eu cyfer

- Ymgynghori a'r AALl a chyrff llywodraethol ysgolion eraill er budd darpariaeth addysg arbennig yn yr ardal gyfan
- Sicrhau bod disgyblion sydd ag ADY yn ymuno yng ngweithgareddau'r ysgol gyda'u cyfoedion
- Adrodd yn flynyddol i rieni ar weithrediad polisi'r ysgol ar gyfer disgyblion ag ADY
- Dalu sylw i'r Côd Ymarfer wrth gyflawni ei ddyletswyddau tuag at bob disgybl sydd ag ADY
- Sicrhau yr hysbysir rhieni os bydd yr ysgol yn penderfynu gwneud darpariaeth ADY ar gyfer eu plentyn

Gweithredu dyletswyddau'r Corff Llywodraethol

i. Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethol benodi un person i fod yn gyfrifol dros fonitro darpariaeth ADY yr ysgol

ii. Bydd y llywodraethwr ADY yn cydweithio a'r pennaeth a'r Cydlunydd ADY i weithredu'r Polisi ac yn medru mynychu cyfarfodydd sy'n ymwneud ag ADY.
Gall hefyd drafod gyda'r Cydlunydd ADY, aelodau staff, disgyblion a rhieni ac
Asantiaethau Allanol yn ôl y gofyn.

iii. Y Corff Llywodraethol sydd i adrodd yn ôl ar y polisi ac i gymeradwyo unrhyw
newidiadau.

Y trefniadau ar gyfer cydgysylltu darpariaeth addysgol ar gyfer disgyblion ADY

Diffinio'r angen am gynhaliaeth addysg arbennig yn Ysgol Gymraeg Ysgol Iolo Morganwg

Mae gan blant Anghenion Dysgu Ychwanegol os ydynt yn arbennig o alluog neu os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n golygu ei fod yn ofynnol gwneud darpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer neu os oes ganddo ef neu hi broblemau ymddygiadol neu emosiynol.

NODER:

i. Rhaid peidio ag ystyried bod gan blant anhawster dysgu oherwydd bod yr iaith neu ffurf yr iaith a ddefnyddir yn y cartref yn wahanol i'r iaith y cant eu haddysgu ynddi.

ii. Gall hyd y cyfnod cynnal a'r amser amrywio. Dros dro yn unig y bydd angen
cynhaliaeth ar rai plant.

iii. Daeth Rhan 2 o'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Anabledd i rym Medi 2002. Mae'r côd Gwahaniaethu ar Sail Anabledd yn cyd-fynd â'r Côd ADY.

Trefniadau derbyn plant

Mae lle yn yr ysgol ar gyfer 210 o blant 4 – 11 oed a hyd at 36 o blant 3 oed hanner amser yn y Feithrin. Rydym yn croesawu pob plentyn, beth bynnag yw ei anghenion, cyn belled a bod llefydd gwag yn yr ysgol.
Nid oes uned arbennig o fewn yr ysgol na mynedfa i gadeiriau olwyn, ac mae nifer o agweddau o fewn yr adeilad sy'n rwystredig i blant ag anabledd.
Mae gan yr ysgol ystatafell adnoddau ar gyfer rhoi cymorth i ddisgyblion gyda'g anawsterau dysgu.

Disgyblion â Datganiad

Er y gall y rhieni fynegi dewis yn ystod y broses wneud datganiad, yr Awdurdod Addysg Lleol, wrth lunio'r datganiad, fydd yn penderfynu ymhle y dylid lleoli'r plentyn, drwy fecanwaith y panel ADY. Os yw'r rhieni yn anghytuno a'r lleoliad, mae ganddynt hawl i apelio o dan Ddeddf Addysg 1996. Pan fydd y rhieni a'r AALl yn gytun, fel arfer eir ati i wneud y trefniadau derbyn rhwng y rhieni a'r ysgol sy'n derbyn y plentyn. Yn y cyfarfod hwnnw, trafodir y manylion ymarferol ynglyn ô derbyn y plentyn i'r ysgol.

Trosglwyddo i Ysgol Gyfun Bro Morgannwg

Mae cysylltiad agos rhwng yr ysgol ag adran ADY Ysgol Bro Morgannwg.
Cynhelir cyfarfod yn hanner tymor ola'r flwyddyn i drafod y plant sy'n trosglwyddo yno o Flwyddyn 6.
Gwahoddir cydlynydd ADY a Phennaeth Blwyddyn 7 Ysgol Bro Morgannwg i unrhyw adolygiadau bynyddol ar gyfer plant ym mlwynyddoedd 5 a 6.
Trosglwyddir ffeiliau, llyfrau asesu ffurfiannol a chopiau o'r CAUau ar bob disgybl ag ADY er mwyn sicrhau dilyniant wedi'r trosglwyddo.
Cynhelir cyfarfodydd clwstwr CAAA (y 5 ysgol gynradd Gymraeg ac Ysgol BM) yn dymhorol i drafod ac i gyd- weithio i wella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY ac i hwyluso'r pontio cynradd/uwchradd o safbwynt ADY.

RHAN 2
Adnabod, Asesu a Darparu

Defnyddiwn yr isod fel sail wrth ddod i adnabod anghenion addysgol plentyn:-

- tystiolaeth o arsylwadau athro dosbarth presennol a blaenorol
- gwybodaeth oddi wrth yr ysgolion blaenorol ac n eu darparwyr meithrin
- mynegiant o bryder gan y rhieni, awdurdod iechyd neu ddisgybl
- perfformiad y disgybl yn erbyn y disgrifiadau lefelau y Cwricwlwm Cenedlaethol neu deillianau'r Cyfnod Sylfaen
- profion CA1 a CA2 a phrofion deiagnostig y Sir.
- profion mewnol yr ysgol a thracio disgyblion
- ymgynghoriad â'r Gwasanaeth Cynhaliol ac arbenigwyr eraill yn ôl y gofyn

Defnyddir system dracio cynnydd disgyblion o'r Dosbarth Derbyn ymlaen a gwelir anghenion y mwayfrif o'r disgyblion yn gynnar. Mae ymyriad cynnar yn y Derbyn neu ym Mlwyddyn 1 yn gallu ac yn datrys anawsterau rhai o'r plant.

Dylai pob asesiad a wneir fod yn adlewyrchiad o'r plentyn cyfan gan dynnu sylw at gryfderau yn ogystal ag anghenion, a dylai fod yn fan cychwyn ar gyfer datblygu CDU i'r plentyn.

Pwy sy'n gyfrifol am adnabod ac asesu?

- Athrawon dosbarth i ddechrau
- Yr athrawes cynnal dysgu a'r Cydlunydd ADY
- Gwasanaethau cefnogi allanol gan gynnwys Seicolegydd Addysg pan yw'n

briodol

- Rhieni - rhaid gwrando ar eu gofidiau.

PATRWM YMYRRYD

Yn unol â'r asesiad, a dwyster yr anghenion gosodir y plant ar gamau yn unol a'r Côd Ymarfer.

Gweithredu gan yr Ysgol (School Action - SA)
Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy (School Action Plus - SA+)
Datganiad
Rhaid cydnabod hefyd bod ADY plant ar gontinuwm ac y gallant newid dros gyfnod.

Anghenion a Gofynion Plant
(Côd Ymarfer ADY Cymru)
Gall anghenion a gofynion plant ddisgyn i o leiaf un o bedwar maes a bydd gan lawer o blant anghenion cydgysylltiedig. Dylid talu sylw i effaith y cyfuniadau hyn ar allu'r plentyn i weithredu, dysgu a llwyddo.

Ceir anghenion yn y meysydd canlynol:

- Cyfathrebu a Rhyngweithio
  (Communication and Interaction)
- Gwybyddiaeth a Dysgu
  (Congition and Learning)
- Datblygiad Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol .
  (Behavioural, Emotional and Social Development)
- Anghenion Synhwyraidd a/neu Gorfforol
  (Sensory and/or Physical Needs)

Gall Cyflyrau Meddygol hefyd arwain at ADY
(Medical Conditions)

Rydym yn gweithredu yn ôl gofynion Côd Ymarfer ADY Cymru.

Y CAMAU NESAF

1. Cyfeirio'r plentyn at yr athro cynhaliol a'i nodi ar y Cofnod o Bryder – caiff tasgau eu gwahaniaethu yn y dosbarth nawr.
   Rhoddir gwybod i rieni am ein pryderon trwy ffon neu lythyr.
2. Yr ACD i drafod a'r cydlynydd ADY a'r athro dosbarth
3. Penderfynu ar asesiad priodol e.e
   Salford Reading Test
   Young's Parallel Spelling Test
   Profion darllen / sillafu Glannau Menai
   Profion NFER
   Asesiadau Prifysgol Bangor ac Uned Seicoleg Prifysgol Birmingham
   Enghreifftiau o waith y plentyn (lefelau CC neu ddeillianau'r CS)
4. Yn sgil canlyniadau'r asesiad a ganhaliwyd pendefynu ar strategaeth gymorth – gwahaniaethu gwaith o hyd neu yn bellach yn y dosbarth, dilyn gofynion y cwricwlwm gyda chefnogaeth mewn grwpiau bach yn y dosbarth neu sesiynau hybu tu allan i'r dosbarth – gyda'r ACD neu'r cynorthwywyr ADY.
5. Caiff y disgybl ei f/monitro'n gyson dros gyfnod byr hyd ar hanner tymor

Caiff y rhieni eu hysbysu a'u hymgynghori yn ystod pob cam o'r broses.

Gwneir ymdrech i sicrhau fod rheolaeth effeithiol, ethos ac amgylchedd dysgu'r ysgol a'r trefniadau cwricwlaidd, bugeiliol a disgyblu yn helpu i atal rhai agweddau o ADY rhag codi a gwneud eraill yn llai.
Yn Ysgol Iolo Morganwg mae'r athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau effeithiol sydd wedi eu profi i gynorthwyo pob un o'r dysgwyr a thrwy wahanaiethu tasgau dysgu o fewn fframwaith y cwricwlwm mae anghenion pob disgybl yn cael eu cwrdd cyn belled ag y bo modd.
Anogir athrawon i gynllunio mewn ffordd hyblyg gan ddefnyddio'u gwerthusiadau er mwyn cydnabod anghenion y disgybl unigol a sicrhau dilyniant, perthnasedd a gwahaniaethu.

Gweithredu Gan yr Ysgol (GY) (School Action)
Os oes gwahaniaethu priodol yn y dosbarth a bod y disgybl yn parhau i gael traferthion wedi'r cyfnod monitro, yna gosodir ef/hi ar y Gofrestr ADY.
Bydd y CAAA, yr ACD a'r athro dosbarth yn cwrdd i drafod y disgybl eto ac yn cychwyn paratoi Cynllun Dysgu Unigol iddo/i. Yr athro dosbarth a'r ACD fydd yn rhoi'r CDU yn ei le a byd yn disgybl yn derbyn cymorth ychwanegol a phriodol gan yr ACD. Mae'r CDU yn golygu bod y disgybl yn cael targedau SMART sef targedau sy'n adlewyrchu eu hanghenion unigol –
S – specific
M - measurable

A - achievable
R – relevant
T - time-based.
Bydd y disgybl yn aros ar y Gofrestr ADY cyhyd a bydd angen. Os byddant yn gwneud cynnydd sylweddol cânt eu tynnu oddi ar y Gofrestr ADY a'u gosod yn ôl ar y Cofnod o Bryder ble bydd eu cynnydd yn parhau i gael ei fonitro'n ofalus. Os ydynt yn gwneud ond ychydig o gynnydd neu ddim o gwbl neu bod eu cyrhaeddiad yn parhau i fod yn sylweddol is na'u cyfoedion neu yn bell oddi tan y lefel CC disgwyliedig fe gânt eu rhoi ar y cam nesaf.
Caiff hyn ei wneud yn ôl disgrifiadau ADY y Sir.

Gweithredu Gan yr Ysgol a Mwy (GY+) (School Action+)

Ar y cam yma cyfeirir y disgybl at asiantaeth allanol megis y Gwasaneth Cefnogi Disgyblion, y Secolegydd Addysg neu un o'r Athrawon Arbenigol (Iaith a Lleferydd, Clyw neu Gweledol).
Caiff y rhieni eu gwahodd i'r ysgol i gwrdd a'r CAAA pryd esbonir y rhesymau tu ol i'r penderfyniad i symud eu plentyn i GA+ ynghyd a'r broses. Bydd yn rhaid iddynt lenwi holiadur a ffurflen ganiatad fel rhan o'r gwybodaeth cyfeirio angenrheidiol.
Caiff asesiadau ffurfiol a deiagnostig eu gwneud gan yr asiantaeth allanol a bydd CDU manwl sy'n berthnasol i anghenion y disgybl fel y'i canfyddir yn sgil dadansoddi canlyniadau'r asesiadau deiagnostig, yn cael ei gynllunio.
Gwahoddir y rhieni yn ol ij drafod yr asesiadau a'rcamau nesaf gyda'r asiant allanol.
Bydd y ddarpariaeth a'r gefnogaeth ar y cam yma trwy barhad yn y gwhanaiaethu yn y dosbarth a chefnogaeth un i un penodol gan yr ACD neu Athrawes Arbenigol (neu weithiau gan y ddwy).
Os oes ond ychydig neu ddim cynnydd yna, gyda chaiatad y rhieni, bydd y disgybl yn cael eu cyfeirio am Asesiad Statudol.

Asesiad Statudol o Anghenion Dysgu Ychwanegol

Gall hyn arwain i ddisgybl i fod yn Destun Datganiad ADY (Gweler Pennod 6 yn y Côd Ymarfer am fanylion pellach)

Cynllun Dysgu Unigol

Yr athrawon dosbarth, gyda chyngor a chefnogaeth y CAAA a'r ACD, sy'n gyfrifol am greu CDU i'r disgyblion. Caiff rhain eu llunio pan mae'r disgybl ar y Gofrestr ADY ac ar Weithredu gan yr Ysgol. Cant eu rhannu gyda'r rhieni a'r disgybl ac unwaith maent yn eu lle cant eu hadolygu yn rheolaidd. Os nad oes newidiadau sylweddol byddant yn cael eu trafod eto gyda'r rhieni ar Nosweithiau Rhieni ym Mis Hydref, Chwefror a Gorffennaf.
Cedwir copiau o'r CDU gan yr ACD, yr athrawon dosbarth a'r rhieni.

Y CAAA fydd yn hysbysu'r rhieni pan adnabyddir ADY.
Y CAAA fydd yn cysylltu ag asiantaethau allanol pan fydd angen.

Ffeiliau'r Disgyblion
Mae gan bob plentyn yn yr ysgol ffeil personol ar gyfer sylwadau ffurfiannol. Cedwir y ffeiliau mewn blychau priodol yn yr ystafelloedd dosbarth. Defnyddir y ffeiliau gan yr athrawon dosbarth i gofnodi manylion datblygiad pob plentyn unigol ac i gadw enghreifftiau o waith, i ddangos cynnydd ac i gofnodi canlyniadau'r amrywiol brofion. O ran ADY defnyddir y ffeiliau gan y CAAA a'r ACD fel adnodd weinyddol i nodi pob ymweliad gan y rhieni neu unrhyw asiantaeth allanol sy'n ymwneud a'r plentyn, i gadw dogfenaeth a chofnodion o'r broses ADY o'r pryderon cynharaf ymlaen gan gynnwys asesiadau a dyddiadau allweddol. Yn ogystal cedwir y CDU yn y ffeiliau felly mae'r ffeil yn fan canolog lle y gellir darllen am sefyllfa academaidd gyfredol pob plentyn gan gynnwys y rhai sydd ag ADY.
Bydd yr ACD yn cadw ffeiliau unigolion ei hun fel cyfrwng i nodi sylwadau ffurfiannol ar y sesiynau unigol a chanlyniadau unrhyw fonitro ac asesu a wneir.

Trefniadau ar gyfer darparu mynediad i ddisgyblion ag ADY i gwricwlwm cytbwys ac eang

Dengys holl gynlluniau gwaith yr ysgol sut y darperir ar gyfer plant ADY gan gynnwys plant dawnus/disglair. Yn ogystal mae'r athrawon dosbarth yn dangos yn eu cynllunio tymor byr pa ddarpariaeth a wneir ar gyfer plant ag ADY.

Defnyddir dargedau'r CDU i gynorthwyo'r athrawon i roi targedau pynciol unigol ac addas yn y dosbarth gan sicrhau bod y disgyblion ADY yn cael mynediad i'r un cwricwlwm a'u cyfoedion ond ar lefel sy'n berthnasol i'w hanghenion.

Sut mae plant ag anghenion arbennig yn cael eu hintigreiddio o fewn yr ysgol?
Addysgir disgyblion ag ADY ochr yn ochr a'u cyfoedion.

Gwneir pob ymdrech i'r plant sy'n derbyn cymorth ddod yn annibynnol o'r athrawon cynhaliol a'r cynorthwyr cefnogi dysgu heblaw am gyfnod gweithgareddau penodol.

Mae disgyblion ag ADY yn cael eu hintegreiddio yn llawn i bob agwedd o fywyd ysgol, yn ysbrydol, yn foesol ac yn ddiwyllannol. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gwasanaaethau ysgol, dramau, clybiau chwaraeon a gwersi offerynnau cerddorol.

Meini prawf ar gyfer gwerthuso llwyddiant polisi ADY yr ysgol

Rhaid i adroddiad blynyddol y Llywodraethwyr gynnwys gwybodaeth am:

- lwyddiant y polisi ADY
- newidiadau sylweddol yn y polisi
- unrhyw ymgynghori a'r AALl, yr Awdurdod Cyllido ac ysgolion eraill
- sut y dyrannwyd adnoddau ar gyfer ac ymhlith plant ag ADY dros y flwyddyn

Wrth gyflwyno sylwadau am lwyddiant y polisi, bydd yr adroddiad yn dangos effeithiolrwydd systemau'r ysgol ar gyfer

- canfod anghenion
- asesu
- darparu
- arolygu a chadw cofnodion
- defnyddio gwasanaethau cynnal ac asiantaethau allanol

Monitro'r safonau a gyrhaeddir trwy:

- lunio map darpariaeth yn flynyddol er mwyn dangos sut mae adnoddau ac arian wedi eu dyrranu a pha ddarpariaeth sydd wedi ei ddarparu ar gyfer unigolion a grwpiau a gan bwy. Mae hefyd yn nodi adnoddau a darpariaeth yn sgil haenau 1 2 3 (gweler y tabl yn y cyflwyniad)
- adolygu'r map darpariaeth yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn gyfredol
- fonitro cynnydd yn gyson
- sicrhau bod targedau cyrhaeddiad yn addas a phriodol a bod disgyblion yn gwneud cynnydd yn eu dysgu, eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau.

Noder: Gall safonau cyrhaeddiad rhai disgyblion ADY fod llawer yn is na'r hyn sy'n arferol ar gyfer eu hoed, er y gallant gynrychioli llwyddiant sylweddol yn achos yr unigolyn dan sylw.

- adolygu pob CDU a Datganiad yn flynyddol ac addasu'r rhaglen lle bo angen gan edrych ar enghreifftiau o waith y plant a thrafod gyda staff a rhieni.
- fonitro tangyflawni gan osod targedau pynciol/ymddygiadol newydd i'r disgybl. Gwneir hyn yn sgil profion mewnol, edrych ar lyfrau'r plant a thrafod y diffyg cynnydd gyda'r rhieni, y disgybl a phawb sy'n gweithio gyda'r disgybl.
- gadw mewn cysylltiad cyson gyda rhieni. Mae eu sylwadau am lwyddiant y ddapariaeth ar gyfer eu plentyn yn arwydd o lwyddiant y trefniadau a'r

gweithdrefnau ac o'r safonau a gyrhaeddwyd.
- sicrhau bod yr hyfforddiant ysgol gyfan mewn ADY yn addas ac yn benodol ar gyfer anghenion cyfredol yr ysgol/staff.

Disgyblion Dawnus a Thalentog

Gweler polisi ysgol 'Disgyblion Dawnus a Thalentog' am fwy o fanylion.
Mae disgyblion Dawnus a Thalentog yn ddisgyblion sydd ag ADY ac yn Ysgol Iolo Morganwg maent yn cael eu cefnogi a'u cynnal yn yr un ffordd ag y mae'r disgyblion sydd o allu is sef drwy weithgaredau wedi eu gwahaniaethu, cefnogaeth ychwanegol a chyfleoedd sy'n eu herio ac yn datblygu ac ymestyn eu sgiliau ymhellach.

Trefn Cwyno

Dylid cyfeirio unrhyw broblem neu gŵyn swyddogol at y pennaeth. Fe fydd yntau yn ei dro yn ymgynghori a'r staff perthnasol, gan geisio datrys y broblem yn fewnol.
Gweler y ddogfen Arferion Cwyno – Complaints Procedure

Trefn Pryderon

Os oes rhiant yn cysylltu â'r ysgol ynglyn â darpariaeth addysgol arbennig o fewn yr ysgol -
- bydd y pryder yn cael ei drafod gan y CAAA a'r holl staff sy'n addysgu/ cynorthwyo'r disgybl .
- trefnir cyfarfod â'r rhieni .
- cedwir cofnod ysgrifenedig o'r hyn a drafodir yn y cyfarfod ynglyn â phenderfyniadau'r cyfarfod yn ffeil y disgybl a chan y CAAA.
- dylid cyfeirio unrhyw ofidiau/ cwynion am ddatganiad plant at yr AALl .
- dylid sicrhau hefyd fod rhieni yn ymwybodol o'r Tribiwnlys ADY a sefydlwyd gan Ddeddf Addysg 1996.

Bydd Y Tribiwnlys yn ystyried cwynion yn erbyn penderfyniadau AALl ynglyn â ADY plentyn pan na fedr y rhieni ddod i gytundeb a'r AALl ar y mater. (Gweler Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol (Terfynau Amser (Cymru) 2001 am wybodaeth bellach).

Mewn achosion arbennig gall rhiant hefyd gysylltu â'r Llywodraethwr sydd wedi cael ei enwi i fod yn gyfrifol am ADY o fewn yr ysgol.

Yn ychwanegol gweler gopi o'r Polisi Ysgol Gyfan ynglyn â threfniadau ar gyfer ystyried cwynion/pryderon yn gyffredinol.

RHAN 3

Gwybodaeth am bolisiau staffio'r ysgol a phartneriaeth gyda chyrff y tu hwnt i'r ysgol

Trefniadau HMS ADY yr ysgol

Hyfforddir staff yn ôl eu hanghenion proffesiynol unigol ac yn ôl gofynion cyffredinol yr ysgol.

Cynllunir rhaglen o hyfforddiant ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus y staff gyda HMS ADY ysgol gyfan yn ffocws blynyddol er mwyn eu cynorthwyo i weithio'n effeithiol gyda phlant ag ADY.

Mae'r AALl yn trefnu hyfforddiant ar gyfer y CAAA yn dymhorol ac mae cyfarfodydd clwstwr yn rhoi cyfleoedd am hyfforddiant pellach ac i rannu arfer dda. Mae tim ymgynghorol ADY yr AALl yn rhoi hyfforddiant un i un yn yr ysgol fel bo angen hefyd.

Bydd y CAAA yn trefnu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol ar gyfer yr ACD a'r cynorthwywyr ADY a bydd hefyd yn cefnogi unrhyw aelod o'r staff sydd eisiau datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ADY a strategaethau cynnal.

Trefnir hyfforddiant ar gyfer y llywodraethwyr gan y Sir.

Ariannu ADY

Fe gaiff y gefnogaeth ar gyfer plant sydd a Datganiad ei ariannu gan yr AALl yn ol y gofynion a nodir yn y Datganiad.

Clustnodir rhan o arian 'Better Schools Fund' ar gyfer ariannu hyfforddiant ac adnoddau ADY yn flynyddol.

Daw gweddill yr arian ar gyfer ADY o gyllid cyffredinol yr ysgol. Yn sgil cais gan y CAAA sy'n seiliedig ar adolygiad/werthusiad o ddarpariaeth ADY am y flwyddyn flaenorol mae swm benodol yn cael ei glustnodi ar gyfer darpariaeth ADY am y flwyddyn nesaf. Defnyddir yr arian i brynu adnoddau a meddalwedd.

Trefniadau ar gyfer partneriaeth gyda rhieni

Bydd y CAAA yn hysbysu'r rhieni drwy lythyr neu ar y ffon pan fydd staff yn mynegi pryder am ddisgybl. Gwahoddir y rhieni i wneud apwyntiad i gwrdd a'r CAAA a'r athro dosbarth i drafod y pryderon ac i gael eu hysbysu o weithdrefnau ADY yr ysgol. Dyma'r drefn os mai'r rhieni sy'n mynegi'r pryder hefyd.

Bydd y rhieni yn cael eu hysbysu drwy lythyr os yw eu plentyn yn cael cefnogaeth ychwanegol mewn unrhyw ffordd er nad ydynt ar y Cofnod o Bryder na'r Gofrestr ADY.

Yn dilyn y cyfarfod cyntaf fe gaiff rhieni eu hysbysu drwy lythyr neu alwad ffon o unrhyw ddatblygiadau pellach ynglyn a'u plentyn a gallent drafod unrhyw agwedd o gynnydd neu ddarpariaeth ADY eu plentyn gyda'r CAAA ar unrhyw adeg.

Yn ystod nosweithiau rhieni fe gaiff rhieni disgyblion ag ADY apwyntiadau hirach er mwyn eu galluogi i drafod darpariaeth ADY a CDU eu plentyn gyda'r athro dosbarth.

Caiff rhieni wybodaeth am ffyrdd i gynorthwyo eu plant yn y cartref hefyd.

Bydd rhieni disgyblion sydd a Datganiad yn cael eu gwahodd i'r ysgol ar gyfer yr Adolygiad Blynyddol yn ol canllawiau'r AALl a'r Côd Ymarfer.

RHAN 4
Y polisi yn dod i rym/trefniadau adolygu'r polisi

Cafodd y polisi gwreiddiol ei gymeradwyo gan y Corff Llywodraethol ym mis Ionawr 2010

Caiff ei adolygu yn flynyddol gan y Corff Llywodraethol.